# Polisi Diogelu

| RHIF Y DDOGFEN. | AWDURDODI GAN | TUDALEN | DYDDIAD | FERSIWN |
|---|---|---|---|---|
| HEN-PY44 | Richard Nicholls | 1 of 24 | 27/04/26 | 10 |

Heneb

## Cynnwys


Datganiad Polisi a Diben....3
Acronymau....3
Diffiniadau....3
- Oedolyn sy’n Wynebu Risg....3
- Bwlio....3
- Gofal a Chymorth....4
- Plentyn sy'n Wynebu Risg....4
- Amddiffyn Plant....4
- Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD) a’i Ddirprwy....4
- Ymyrryd yn Gynnar....4
- Uwchgyfeirio....4
- Meithrin Perthynas Amhriodol....4
- Niwed....5
- Cam-drin Ariannol....5
- Galluedd Meddyliol....5
- Prevent....5
- Hyrwyddwr Diogelu....5
- Diogelu Plant....5
- Awdurdod Statudol....5
- Radicaleiddio....6
- Gweithgareddau a Reoleiddir....6
- Chwythu’r Chwiban....6

Y Polisi....7
Rolau a Chyfrifoldebau....9
Diogelu: Yr Egwyddorion; Adnabod Arwyddion o Gam-drin neu Niwed....12
Ble y bydd Cam-drin yn Digwydd:....14
Arwyddion a Dangosyddion Camdriniaeth:....14
Cam-drin neu Fwlio Ar-lein....14
Asesiadau Risg....15
Cydnabod Pryderon neu Honiadau sy'n Ymwneud â Diogelu ac Ymateb iddynt....17
Pryderon sy'n Ymwneud â Diogelu: Arwyddion Ymhlith Oedolion....18
Camfanteisio Troseddol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodas dan Orfod, Radicaleiddio....19
ATODIAD 1: FFURFLENNI....22
ATODIAD 2: ADRANNAU PERTHNASOL O LAWLYFR STAFF HENEB....23
ATODIAD 3: GWEFANNAU DEFNYDDIOL....24

## Datganiad Polisi a Diben

Mae Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru (Heneb o hyn ymlaen) yn cydnabod ei bod yn rhaid iddi sicrhau diogelwch staff yr Ymddiriedolaeth neu unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd yn cwrdd â staff yr Ymddiriedolaeth yn ystod ei gweithrediadau. Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn nodi'r safonau gofynnol y disgwylir i holl staff yr Ymddiriedolaeth ac unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd yn gweithio gyda ni eu cyrraedd, a'r rhwymedigaethau rheoliadol a chyfreithiol y bydd yn rhaid eu bodloni.

Mae'r polisi hwn yn ymgorffori arferion gorau gan sefydliadau proffesiynol eraill fel y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, y Clwb Archaeolegwyr Ifanc, Cyngor Sir Gwynedd, Llywodraeth Cymru ac endidau proffesiynol neu gyfreithiol eraill a all roi arweiniad ychwanegol o bryd i'w gilydd.

## Acronymau

At ddibenion y polisi hwn, defnyddir yr acronymau canlynol:

| | |
|---|---|
| CBA | Y Cyngor Archaeoleg Brydeinig |
| ADD | Arweinydd Diogelu Dynodedig |
| GDPR | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 |
| YAC | Clwb Archaeolegwyr Ifanc |

## Diffiniadau

Daw'r diffiniadau isod o Weithdrefnau Diogelu Cymru ac mae'n bosibl y cânt eu diweddaru o bryd i'w gilydd wrth i'r canllawiau newid. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gweld yn: Diogelu Cymru. Nodwch nad yw'r diffiniadau yma'n drylwyr; gellir atodi dosbarthiadau perygl neu niwed eraill os bydd fframwaith cyfreithlon yn cael ei diweddaru

### Oedolyn sy'n Wynebu Risg

Diffinnir oedolyn sy'n wynebu risg neu oedolyn agored i niwed fel person 18 oed neu hŷn y mae'r canlynol yn wir amdano:

- Mae angen gofal a chymorth arno (boed dan ofal yr awdurdod lleol neu fel arall).
- Mae'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu'n wynebu risg o hynny.
- O ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag y risg o hynny (Deddf Gofal 2014).

Gall oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin:

- Fod â salwch sy'n effeithio ar ei iechyd meddwl neu ei iechyd corfforol; neu
- Fod ag anabledd dysgu; neu
- Ddioddef o broblemau cyffuriau neu alcohol; neu
- Fod yn fregus oherwydd ei oedran.

### **Bwlio**

Ymddygiad a gaiff ei ailadrodd dros amser gan unigolyn neu grŵp ac sy'n brifo unigolyn neu grŵp arall yn fwriadol naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol yw bwlio (diffiniad gan Lywodraeth y DU, 2017).

Gofal a Chymorth
Dyma'r cymysgedd o gymorth ymarferol, ariannol ac emosiynol i oedolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i reoli eu bywydau a bod yn annibynnol, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anabledd neu salwch hirdymor, pobl â phroblemau iechyd meddwl a gofalwyr.

Plentyn sy'n Wynebu Risg
Ystyr plentyn yw unrhyw berson hyd at 18 oed. Gall risg i blant fod ar sawl ffurf, gan amrywio o risg gorfforol a meddyliol i gamfanteisio ariannol neu rywiol a masnachu pobl. Mae pob plentyn yn wynebu risg, ond mae'n bosibl y bydd rhai grwpiau'n fwy agored i niwed nag eraill, er enghraifft plant ag anghenion ychwanegol neu blant sydd o grwpiau diwylliannol gwahanol neu sy'n aelodau o'r gymuned LHDTC+.

*Amddiffyn Plant*
Amddiffyn plant yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y camau a gymerir i amddiffyn plentyn sy'n dioddef niwed sylweddol neu sy'n wynebu risg o hynny.

*Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD) a'i Ddirprwy*
Mae'r ADD a'i Ddirprwy yn aelodau o staff Heneb a benodir gan yr uwch-reolwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i oruchwylio'r gwaith o reoli gweithgareddau diogelu o ddydd i ddydd yn Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru.

Ymyrryd yn Gynnar
Ymyrryd yn gynnar yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at gamau a gymerir i roi help a chefnogaeth gynnar i unrhyw blentyn neu oedolyn agored i niwed gyda'r bwriad o atal unrhyw niwed yn y dyfodol. Mae llawer o fathau o ymyriad i'w cael, a gallant gynnwys un neu fwy o sefydliadau proffesiynol neu sefydliadau sy'n gweithio gyda'r plentyn, yr oedolyn neu'r teulu ar ôl i asesiad o anghenion gael ei gynnal.

Uwchgyfeirio
Y broses lle y bydd yr unigolyn sy'n codi pryder yn ei drosglwyddo i'r lefel nesaf o awdurdod yw uwchgyfeirio. Cychwynnir y broses hon os bydd gan yr unigolyn bryder am y person y gwnaed y gŵyn wreiddiol iddo; os bydd yn teimlo nad yw'r gŵyn wedi cael ei datrys yn llawn neu ei bod yn galw am gamau ychwanegol. At ddibenion y Polisi Diogelu hwn, y llinell uwchgyfeirio y dylid ei dilyn yw:

ADD/DIRPRWY → PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL → BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR
(Gan roi gwybod i'r cyd-benaethiaid rhanbarthol)

Meithrin Perthynas Amhriodol
Ystyr meithrin perthynas amhriodol yw pan fydd rhywun yn meithrin perthynas, boed yn seiliedig ar ymddiriedaeth neu gysylltiad emosiynol, â phlentyn neu oedolyn agored i niwed er mwyn dylanwadu arno, camfanteisio arno neu ei gam-drin. Bydd plant y caiff perthynas amhriodol ei meithrin â nhw yn wynebu risg o gamfanteisio ariannol neu rywiol a masnachu plant. Gall meithrin perthynas amhriodol ddigwydd dros gyfnod byr neu hir a gall hefyd olygu bod y sawl sy'n gwneud hynny hefyd yn meithrin perthynas â theulu neu ofalwyr y dioddefwr. Gall y sawl sy'n meithrin perthynas amhriodol fod yn unrhyw un, beth bynnag fo'i oedran, ei ryw neu ei hil.

Heneb

Niwed

Diffinnir niwed fel:

- Cam-drin. Mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin emosiynol, cam-drin ariannol a cham-drin seicolegol.
- Amhariad ar iechyd corfforol neu iechyd meddwl, gan gynnwys yr hyn a ddioddefir yn sgil gweld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin.
- Amhariad ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol, gan gynnwys yr hyn a ddioddefir yn sgil gweld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin.

*Cam-drin Ariannol*

Cam-drin ariannol yw'r term a ddefnyddir pan na chaiff anghenion plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed eu diwallu, naill ai am fod rhiant, gofalwr neu berson arall (er enghraifft rhywun sy'n meithrin perthynas amhriodol) yn dargyfeirio arian a ddaw i law fel taliadau uniongyrchol ar gyfer anghenion gofal a chymorth, neu pan gaiff eiddo personol ei symud ymaith gan riant, gofalwr neu berson arall er ei elw ei hun.

Galluedd Meddyliol

Mae galluedd meddyliol yn cyfeirio at allu person i ddeall a phrosesu gwybodaeth a roddir iddo.  Er mwyn bod â galluedd meddyliol, rhaid i berson allu:

- Cofio gwybodaeth yn ddigon hir i allu gwneud penderfyniad;
- Pwyso a mesur y wybodaeth sydd ar gael i wneud ei benderfyniad;
- Cyfleu ei benderfyniad.  Gallai hyn fod drwy siarad, drwy arwyddo neu drwy unrhyw arwyddion eraill y cytunwyd arnynt, fel symudiadau llygaid neu ddyfais technoleg gynorthwyol a reolir ganddo.

*Prevent*

“Prevent” yw enw’r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU sy’n delio â gofynion statudol mewn perthynas ag eithafiaeth a radicaleiddio, rhoi gwybod a hyfforddi.

Hyrwyddwr Diogelu

Aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy’n goruchwylio’r holl weithgareddau diogelu yn Heneb yw'r hyrwyddwr diogelu.

Diogelu Plant

Diogelu plant yw'r term cyffredinol ar gyfer amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu eu niweidio. Mae hyn yn cynnwys atal amhariad ar iechyd a datblygiad; sicrhau amgylchedd sy'n rhoi gofal diogel ac effeithiol a chymryd camau lle bo hynny'n briodol er mwyn galluogi pob plentyn i gael y canlyniadau gorau (Gweithio Gyda'n Gilydd, 2018).

Awdurdod Statudol

Ystyr awdurdod statudol yw unrhyw un o’r awdurdodau sydd â’r grym i ymchwilio i bryderon sy’n ymwneud â diogelu plant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed.  Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol.
- Yr heddlu.
- Tîm cymorth yr unigolyn (os yw’n berthnasol).
- Yr NSPCC.

- Sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag atal niwed i blant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed.

Radicaleiddio

Radicaleiddio yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r weithred o recriwtio plant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed i grwpiau eithafol, boed yn rhai gwleidyddol neu'n rhai eraill. Mae radicaleiddio'n ddibynnol ar ddau amod – presenoldeb person neu grŵp sydd â safbwynt penodol ac sy'n dymuno recriwtio pobl i gefnogi neu weithredu ar ei ran. Yn ail, bydd yr unigolion a dargedir fel arfer yn rhannu nodweddion neu amgylchiadau cyffredin. Efallai y bydd yr unigolyn a dargedir eisoes yn agored i niwed, er enghraifft oherwydd cyflyrau iechyd meddwl neu angen seicolegol am ymdeimlad o berthyn neu statws nad yw wedi cael ei ddiwallu, ac y bydd y rhai sy'n ceisio ei radicaleiddio yn camfanteisio ar hynny. **Mae'n bwysig nodi NAD yw radicaleiddio wedi'i gyfyngu i grwpiau Islamaidd eithafol.**

Gweithgareddau a Reoleiddir

Ystyr gweithgareddau a reoleiddir yw gweithgareddau sy'n cynnwys plant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed lle mae oedolion eraill yn bresennol mewn swyddogaeth oruchwylio neu reoli. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, clybiau a chymdeithasau a digwyddiadau cyhoeddus eraill.

Chwythu'r Chwiban

Chwythu'r chwiban yw'r term a roddir i'r broses o roi gwybod am bryder sy'n ymwneud â diogelu yn Heneb, nad oes modd rhoi gwybod amdano gan ddefnyddio llwybr y goeden rhoi gwybod a nodir uchod. **Dim ond** os bydd yr unigolyn sy'n dymuno codi pryderon yn teimlo na fydd Heneb yn cymryd pryderon o'r fath o ddifrif neu na fydd camau'n cael eu cymryd, neu os bydd yn ofni y byddai rhywrai'n dial arno pe bai'r pryder yn cael ei godi, y dylid chwythu'r chwiban. Dylai staff Heneb gyfeirio at y Polisi Chwythu'r Chwiban sydd yn y Llawlyfr Staff. Dylai gwirfoddolwyr sy'n dymuno codi pryderon yn y modd hwn ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r ADD, ei Ddirprwy nac aelod uwch o staff Heneb gysylltu â'r NSPCC ar linell gymorth arbennig yr elusen – **0800 028 0285.**

**Y Polisi**

Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod gan bawb rôl i'w chyflawni o ran canfod pryderon, rhannu gwybodaeth a gweithredu'n ddi-oed er mwyn diogelu cydweithwyr, plant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, dylai pawb wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ystyried budd pennaf y cydweithiwr, plentyn, y person ifanc, neu'r oedolyn agored i niwed bob amser.

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod pawb, beth bynnag fo'u hoedran, eu gallu, eu rhywedd, eu hil, eu cred, eu cyfeiriadedd rhywiol a'u cefndir economaidd-gymdeithasol:

- Yn gallu cael profiad cadarnhaol a phleserus gyda Heneb mewn amgylchedd diogel a chynhwysol.
- Yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw fath o gam-drin wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir neu a oruchwylir gan Heneb.

Felly:

a) Mae Heneb yn cydnabod y gall rhai plant, pobl ifanc neu oedolion fod yn fwy agored i gael eu cam-drin, ac rydym yn derbyn cyfrifoldeb i gymryd camau er mwyn sicrhau eu lles. Fel rhan o'r polisi diogelu hwn, byddwn yn:

- Hyrwyddo a blaenoriaethu diogelwch a lles plant, pobl ifanc ac oedolion a all wynebu risg.
- Sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a'u bod yn cael hyfforddiant ac arweiniad ar agweddau ar ddiogelu.
- Cynnig mynediad at Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD) sydd wedi'i hyfforddi'n addas, a'i Ddirprwy, a fydd yn cynghori ar arferion da yn ogystal ag ymateb i bryderon neu ddigwyddiadau.
- Sicrhau bod cofnodion cyfrinachol, manwl a chywir o'r holl bryderon diogelu yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel.
- Dilyn prosesau recriwtio mwy diogel ar gyfer recriwtio'r holl staff a gwirfoddolwyr.

b) Dylid ystyried y polisi hwn ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau mewnol eraill Heneb yn ogystal â chanllawiau a gweithdrefnau a all gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth y DU neu gyrff proffesiynol fel CBA neu YAC.

c) Uwch-reolwyr Heneb fydd yn enwebu'r ADD a'i Ddirprwy. Bydd yr ADD a'i Ddirprwy yn sicrhau eu bod yn cynnal yr hyfforddiant a'r cymwysterau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r rôl.

d) Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau mewnol Heneb yn cynnwys adrannau sy'n berthnasol i'r Polisi Diogelu hwn a rhaid i'r holl staff sy'n gyfrifol am oruchwylio plant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â'r rhain. Mae'r adrannau perthnasol i'w gweld yn ATODIAD 2: ADRANNAU PERTHNASOL O LAWLYFR STAFF HENEB yn y ddogfen hon, ond maent wedi'u rhestru isod er hwylustod:

<u>Llawlyfr Staff</u>

Bydd hyn yn cael ei diweddaru pan fydd y Llawlyfr Staff wedi'u cyhoeddi

**Commented [SE1]:** Update with English version when completed

Iechyd a Diogelwch

Bydd hyn yn cael ei diweddaru pan fydd y Llawlyfr Staff wedi'u cyhoeddi

Commented [SE2]: Update with English version when completed

Mae'r ffurflenni a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i weithgareddau allgymorth penodol i'w gweld yn Atodiad 1 i'r polisi hwn.

a) Bwriedir i'r polisi hwn a'i weithdrefnau a'i ffurflenni cysylltiedig leihau'r risg o niwed i'r rhai hynny sy'n ymwneud â Heneb, boed yn blant, yn bobl ifanc, neu'n oedolion agored i niwed, ym mha fodd bynnag y bydd yr ymwneud hwnnw'n digwydd, a'r rhai hynny sy'n gweithio i Heneb neu'n gwirfoddoli gyda Heneb. Mae'n cydnabod bod gan bawb sy'n cwrdd â phlant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed rôl i'w chyflawni o ran canfod pryderon, rhannu gwybodaeth a gweithredu'n ddi-oed.

b) Rhaid i'r holl staff a gwirfoddolwyr lynu wrth yr amodau a nodir yn y polisi hwn a'r gweithdrefnau a'r cod ymddygiad cysylltiedig pan fyddant yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd a gynhelir dan nawdd Heneb, boed yn weithgaredd archaeolegol, ymchwiliol neu allgymorth. Pan fydd staff neu wirfoddolwyr Heneb yn gweithio dan nawdd cwmnïau eraill, rhaid i'r staff lynu wrth y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn ogystal ag unrhyw bolisïau neu weithdrefnau diogelu sy'n ofynnol gan y corff allanol.

c) Caiff y polisi a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n flynyddol ac mewn ymateb i'r meini prawf canlynol:

- Os caiff y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu, amddiffyn plant a chanllawiau cysylltiedig eraill eu diweddaru neu eu newid fel arall; neu
- Os bydd y Comisiwn Elusennau'n mynnu bod y polisi a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu; neu
- Os bydd newid i bersonél diogelu yn Heneb; neu
- Yn achos digwyddiad y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol amdano sy'n cynnwys aelod o staff neu un o wirfoddolwyr Heneb.

**Rolau a Chyfrifoldebau**

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Er bod gan Heneb ADD a Dirprwy ADD, mae dyletswydd ar bob aelod o staff a gwirfoddolwr i sicrhau eu bod yn glynu wrth y cod ymddygiad sy'n rhan o'r polisi hwn wrth ryngweithio â phlant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed.

a. Bydd Heneb yn sicrhau bod yr ADD a'i Ddirprwy yn cael hyfforddiant diogelu perthnasol a chyfredol a bod pob aelod arall o staff yn cael hyfforddiant sy'n gymesur â'i rôl.

b. Mae gan Ymddiriedolwyr Heneb gyfrifoldeb cyfreithiol am ddiogelu yn Heneb. Bydd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr aelod enwebedig sy'n gyfrifol am ddiogelu ac a fydd yn gweithredu fel 'hyrwyddwr diogelu' y Bwrdd.

c. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu a'r cod ymddygiad cysylltiedig ar waith ac yn gyfredol, ac y caiff ADD a Dirprwy ADD eu penodi.

d. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am ddiogelu o ddydd i ddydd i'r ADD a'i Ddirprwy. Bydd yr ADD a'i Ddirprwy yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd o leiaf unwaith bob chwarter i'r Ymddiriedolwyr a fydd yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- Manylion unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu gan ystyried newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- Manylion unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu sydd wedi codi, a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hyn. Bydd unrhyw ddigwyddiadau a gofnodir yn y modd hwn yn ddienw oni fydd natur y digwyddiad(au) yn golygu bod angen cynnwys manylion o'r fath.
- Manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r ADD, ei Ddirprwy neu unrhyw aelodau o staff neu wirfoddolwyr eraill wedi ei gael sy'n ymwneud â diogelu.

e) Mae'r ADD a'i Ddirprwy yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod arferion recriwtio mwy diogel ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad a bod hyfforddiant yn cael ei gynnal a'i gwblhau.
- Bod Heneb yn cydymffurfio â'r gofynion i roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol. Mae tudalen we'r Comisiwn i'w gweld yma.
- Bod y Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu a'r Cod Ymddygiad yn cael eu rhannu â'r holl staff a gwirfoddolwyr.
- Wrth weithio gyda sefydliadau allanol neu wneud gwaith is-gontractio, dilynir prosesau diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad allanol neu'r contractwr bolisïau a gweithdrefnau diogelu cyfredol a pherthnasol.
- Caiff diwylliant ac amgylchedd o 'rymuso' eu meithrin a'u hyrwyddo ym mhob rhan o Heneb, lle mae'r holl staff, gwirfoddolwyr neu bobl eraill yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu.

f) Dylid rhoi gwybod i'r ADD neu ei Ddirprwy am bob pryder sy'n ymwneud â diogelu. Dylid rhoi gwybod am unrhyw honiadau neu bryderon ynghylch staff neu wirfoddolwyr i'r ADD neu ei Ddirprwy yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r ffurflenni perthnasol. Yr ADD a'i Ddirprwy sy'n gyfrifol am reoli unrhyw bryderon a godir, ceisio cyngor a chysylltu ag awdurdodau statudol lle bo angen.

~~g~~f) Dyma'r Arweinwyr Diogelu Dynodedig presennol ar gyfer Heneb:

**Arweinydd Diogelu Dynodedig: Siân Evans: safeguarding@heneb.org.uk Rhif ffôn: 01248 366970 / 07741 292 802**

**Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig: Claudine Gerrard safeguarding@heneb.org.uk 01639 501703**

**Mr Henry Owen John, Hyrwyddwr Diogelu'r Bwrdd; E-bost: safeguarding@heneb.org.uk**

~~h~~f) Wrth recriwtio staff, mae rhwymedigaeth ar Heneb i sicrhau bod yr holl gyflogeion a gwirfoddolwyr y mae eu rôl yn cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed yn addas i wneud hynny o dan ddeddfwriaeth y pedair gwlad sy'n ffurfio'r DU. Mae cyflogi rhywun sy'n ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir, gan wybod ei fod wedi'i wahardd rhag cael ei gyflogi, yn drosedd ym mhob un o'r gwledydd.

~~i~~f) Bydd Heneb yn sicrhau y caiff arferion recriwtio diogel eu rhoi ar waith, gan gynnwys craffu ar ymgeiswyr, gwirio manylion adnabod a chymwysterau perthnasol, cael geirdaon, gwirio hanes cyflogaeth flaenorol, a sicrhau bod gan ymgeisydd yr iechyd a'r gallu corfforol sy'n ofynnol i gyflawni'r rôl. Pan fydd rôl yn gofyn i ymgeisydd ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir, bydd angen gwirio a dilysu'r ymgeisydd yn briodol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

~~j~~f) Bydd yn ofynnol i holl staff Heneb sy'n ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir gael hyfforddiant diogelu a chwblhau hyfforddiant gloywi rheolaidd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Pan wneir newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sy'n goruchwylio diogelu, caiff newidiadau o'r fath eu rhannu â'r holl staff cyn gynted â phosibl, a chaiff cyfleoedd i ailhyfforddi eu cynnig.

~~k~~f) Pan wahoddir staff Heneb i arwain gweithgareddau gan YAC lleol neu grwpiau cymunedol eraill, dylai staff o'r fath fod wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu priodol. **Rhaid** i aelodau staff o'r fath ddeall polisïau a gweithdrefnau diogelu Heneb a'r cod ymddygiad cysylltiedig. Bydd yr ADD a'i Ddirprwy yn sicrhau bod unrhyw aelodau o staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau o'r fath wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelu cychwynnol ac yn cadarnhau erbyn pa ddyddiadau y bydd angen cael unrhyw hyfforddiant gloywi. Dylai staff sy'n arwain gweithgareddau o'r fath neu'n bresennol ynddynt sicrhau eu bod yn rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau yn unol â gweithdrefnau rhoi gwybod Heneb a'r Cyngor Archaeoleg Brydeinig, sy'n goruchwylio'r Clwb Archaeolegwyr Ifanc. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai aelodau o staff gysylltu â'r ADD neu ei Ddirprwy cyn gynted â phosibl i gael arweiniad.

~~l~~f) Caiff cofnodion o'r fath eu cadw yn unol â gofynion GDPR a gellir eu dangos ar gais i'r CBA, corff llywodraethu YAC neu awdurdod statudol arall yn ôl y gofyn. Caiff cofnodion eu cadw yn unol â rheolau GDPR pan na fydd arweinydd neu wirfoddolwr yn ymwneud â YAC mwyach, a chânt eu gwaredu'n briodol ar ddiwedd y cyfnod cadw statudol.

~~m~~f) Bydd yr ADD a'i Ddirprwy yn sicrhau y caiff cofnodion eu cadw sy'n nodi ar ba ddyddiad y bydd staff a/neu wirfoddolwyr Heneb yn cwblhau eu hyfforddiant diogelu cychwynnol a dyddiadau unrhyw hyfforddiant gloywi a gwblheir.

~~n)~~f) Caiff cofnodion o'r fath eu cadw yn unol â gofynion GDPR a gellir eu dangos ar gais i Fwrdd Ymddiriedolwyr Heneb, rheolwyr Heneb neu awdurdod statudol arall yn ôl y gofyn. Caiff cofnodion eu cadw yn unol â rheolau GDPR pan na fydd aelod o staff neu wirfoddolwr yn cael ei gyflogi gan Heneb/yn ymwneud â Heneb mwyach, a chânt eu gwaredu'n briodol ar ddiwedd y cyfnod cadw statudol.

**Diogelu**

*Yr Egwyddorion: Adnabod Arwyddion o Gam-drin neu Niwed*

Mae'r Ddeddf Gofal (2014) yn ymgorffori chwe egwyddor allweddol diogelu. Er mai deddfwriaeth sydd wedi'i bwriadu ar gyfer diogelu oedolion yw'r Ddeddf Gofal, gellir cymhwyso'r egwyddorion yn effeithiol ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed.

*Egwyddor 1: Atebolrwydd*

Bydd staff a gwirfoddolwyr Heneb yn agored â phlant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed, eu rhieni a'u gofalwyr ynglŷn â'r camau yr hoffem eu cymryd i'w cadw'n ddiogel, oni fyddai gwneud hynny'n eu rhoi mewn mwy o berygl. Mae Polisi Diogelu, Polisi Recriwtio Mwy Diogel a Chod Ymddygiad Heneb yn amlinellu sut rydym yn hyfforddi ein staff a'n gwirfoddolwyr ac yn amddiffyn pobl sy'n rhyngweithio â ni mewn unrhyw ffordd.

*Egwyddor 2: Grymuso*

Mae Heneb yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd sy'n llawn cefnogaeth ac anogaeth gyda staff, gwirfoddolwyr a phobl sy'n rhyngweithio â ni mewn unrhyw ffordd. Byddwn yn sicrhau bod pob penderfyniad ynghylch gweithio'n ddiogel yn cynnwys y cyfranogwyr. Os cyfyd pryderon sy'n ymwneud â lles neu ddiogelu, byddwn yn gofyn am gydsyniad y plentyn, y person ifanc, neu'r oedolyn agored i niwed cyn cymryd unrhyw gam neu roi gwybod am unrhyw bryderon. Os bydd staff Heneb yn rhoi gwybod am bryderon neu'n cymryd unrhyw gamau yn erbyn dymuniadau'r plentyn, y person ifanc, neu'r oedolyn agored i niwed, bydd y rhesymau dros y penderfyniad hwn yn cael eu hesbonio'n glir i'r unigolyn a'u cofnodi yn y log diogelu.

*Egwyddor 3: Partneriaeth*

Er mwyn sicrhau y caiff pawb eu cadw'n ddiogel a'u cefnogi, bydd Heneb yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys rhai statudol ac elusennol. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r asiantaethau hyn i hyfforddi, recriwtio'n ddiogel, cyfeirio a rhoi gwybod am bryderon sy'n ymwneud â diogelu a lles.

*Egwyddor 4: Atal*

Bydd Heneb yn sicrhau bod y mesurau diogelu cywir ar waith a bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall eu rôl mewn perthynas â diogelu a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon. Bydd Heneb yn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gwybod ac yn deall beth yw arwyddion a dangosyddion camdriniaeth, er mwyn gallu rhoi gwybod am unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl.

*Egwyddor 5: Cymesuredd*

Bydd Heneb yn sicrhau y caiff camau eu cymryd ynghylch unrhyw bryder sy'n ymwneud â diogelu plentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i niwed. Pan gymerir camau, bydd Heneb yn sicrhau eu bod yn gymesur â'r risg.

*Egwyddor 6: Amddiffyn.*

Bydd Heneb yn cefnogi'r rhai hynny y gall fod angen eu hamddiffyn, yn eirioli o'u plaid, ac yn cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch.

Ble y bydd Cam-drin yn Digwydd:

Y lle mwyaf cyffredin i gam-drin ddigwydd yw o fewn teuluoedd neu berthnasoedd, neu lle mae gan un person bŵer dros berson arall, er enghraifft mewn lleoliad gofal, ysgol, neu grŵp allanol. Gall hefyd ddigwydd mewn cymunedau neu ar-lein ac, yn llai aml, gall gael ei gyflawni gan rywun nad yw'r person yn ei adnabod. Mae'n bwysig bod staff a gwirfoddolwyr Heneb yn gwybod beth i gadw llygad amdano ymhlith pobl sy'n cael eu cam-drin ac a all fod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Arwyddion a Dangosyddion Camdriniaeth:

Mae llawer o arwyddion a dangosyddion camdriniaeth. Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl na fydd pob un o'r arwyddion a dangosyddion yn bresennol, ond mae hefyd yn bwysig deall y gall rhai fod yn bresennol pan nad oes perygl o gam-drin. Anogir staff a gwirfoddolwyr Heneb sy'n sylwi ar unrhyw rai o'r arwyddion a'r dangosyddion i drafod y rhain gyda'r ADD neu ei Ddirprwy yn y lle cyntaf. Dyma rai dangosyddion:

- Newid mewn ymddygiad.
- Ymddangos yn bell, yn ofidus neu'n ddig.
- Marciau neu gleisiau nad oes esboniad amdanynt.
- Cymryd llai neu fwy o ofal am eu hedrychiad.
- Bod yn gyfrinachol ynglŷn â phwy maen nhw'n siarad â nhw, beth maen nhw'n ei wneud a phwy maen nhw'n eu gweld.

Cam-drin neu Fwlio Ar-lein

Rhaid i staff Heneb sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n cynnwys plant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed fod yn ymwybodol o unrhyw ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r doreth o apiau cyfryngau cymdeithasol newydd ynghyd â phrinder gwiriadau o fanylion adnabod yn golygu y gall cam-drin ddigwydd ar-lein, ni waeth ble y bo'r dioddefwr. Dyma rai arwyddion posibl o gam-drin ar-lein:

- Edrych ar eu dyfeisiau'n gyson, boed yn ffôn, yn llechen neu'n gyfrifiadur.
- Ymddwyn yn llechwraidd wrth ddefnyddio dyfeisiau o'r fath.
- Amharodrwydd i ganiatáu i riant/gofalwr neu berson arall ag awdurdod gael mynediad at eu dyfeisiau.
- Amharodrwydd i fod 'allan o signal' neu heb gysylltiad â'r rhyngrwyd am gyfnod hir. ***Dylai staff fod yn ymwybodol y gall hyn hefyd fod yn arwydd o reolaeth drwy orfodaeth ac y gall ymddangos mewn grwpiau nad ydynt fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sy'n wynebu risg.**

Os bydd amheuaeth o gam-drin ar-lein, dylai staff Heneb wneud y canlynol:

- Os bydd yr amheuaeth yn codi yn ystod digwyddiad ysgol neu YAC, dilyn y gweithdrefnau rhoi gwybod ar gyfer yr ysgol a/neu YAC. Dylid rhoi gwybod i ADD Heneb neu ei Ddirprwy am yr amheuon hefyd.
- Os bydd yr amheuaeth yn codi yn ystod digwyddiad Heneb, bydd y gweithdrefnau rhoi gwybod arferol yn berthnasol.

Mae'n bwysig cofio ei bod yn bosibl **na** fydd rhywun sy'n cael ei gam-drin yn dangos unrhyw un o'r arwyddion uchod. Dylai staff Heneb ymddiried yn eu greddfau ac, os bydd unrhyw amheuaeth, dylent gysylltu â'r ADD neu ei Ddirprwy i drafod eu pryderon. Anaml y bydd cam-drin yn digwydd unwaith yn unig; os bydd nifer o bobl (staff ysgol, meddygon teulu, staff Heneb ac ati) yn nodi eu pryderon yn briodol, bydd modd ffurfio darlun sy'n adnabod unrhyw gam-drin; ond, yn bwysicaf oll, bydd cofnodion o'r fath yn helpu os daw unrhyw gam-drin difrifol i'r amlwg sy'n ymwneud â'r awdurdodau statudol. Gall cofnodion fel hyn dynnu sylw at newidiadau bach, a hyd yn oed ddyddiadau, i gadarnhau disgrifiad y dioddefwr.

Asesiadau Risg

a) Bydd staff Heneb yn cwblhau asesiad risg ysgrifenedig cyn cynnal unrhyw sesiynau sy'n cynnwys plant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed. Bydd y gofyniad hwn yn aros yr un fath p'un a yw'r gweithgareddau'n digwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Caiff asesiadau risg eu rhannu â holl staff Heneb sy'n ymwneud â'r gweithgaredd a chânt eu cadw am o leiaf flwyddyn ar ôl y digwyddiad.

b) Bydd staff Heneb yn sicrhau eu bod yn cynnal dulliau cyfathrebu clir â'r holl blant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau. Os bydd gweithiwr cymorth neu ofalwr yn bresennol gyda phlentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i niwed mewn digwyddiad, caiff yr unigolyn hwnnw ei gynnwys yn yr holl gyfathrebu. Os caiff anghenion cyfathrebu ychwanegol eu nodi, fel anghenion iaith arwyddion, anghenion cyfieithu neu anghenion eraill, bydd staff Heneb yn sicrhau y caiff digon o amser ei neilltuo i ystyried y rhain wrth gyfathrebu â'r plentyn/person ifanc/oedolyn agored i niwed.

c) Ni fydd staff Heneb byth ar eu pen eu hunain gyda phlentyn, person ifanc, gwirfoddolwr nac oedolyn agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw ddigwyddiad. Pan fydd digwyddiad yn cynnwys plant neu bobl ifanc, **rhaid** i unrhyw ohebiaeth drwy e-bost gael ei hanfon drwy'r rhiant, y gofalwr neu'r oedolyn cyfrifol ac **nid** yn uniongyrchol at y plentyn neu'r person ifanc. Os bydd gwirfoddolwr rhwng 16 ac 18 oed a bod angen cyfathrebu'n uniongyrchol ag ef (e.e. dros y ffôn ar gyfer ymweliadau safle ac ati), bydd Heneb bob amser yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig y rhiant, y gofalwr neu'r oedolyn cyfrifol cyn gwneud hynny. Caiff caniatâd o'r fath ei gadw yn unol â'r rheoliadau GDPR perthnasol yn ystod ac ar ôl y digwyddiad y bydd ei angen ar ei gyfer, cyn iddo gael ei waredu'n ddiogel. Bydd y rhiant, y gofalwr, neu'r oedolyn cyfrifol yn cael copi o bob gohebiaeth uniongyrchol.

d) Bydd Heneb yn gofyn am gydsyniad ysgrifenedig gan bawb sy'n rhan o'i gweithgareddau, boed yn wirfoddolwyr, yn blant, yn bobl ifanc, neu'n oedolion agored i niwed, i gasglu data a'u cadw. Os bydd plentyn neu berson ifanc dan 18 oed, gofynnir am gydsyniad gan ei riant, ei ofalwr neu ei oedolyn cyfrifol. Ar gyfer oedolion agored i niwed, yn ogystal â cheisio cydsyniad ganddyn nhw, gofynnir am gydsyniad ychwanegol gan eu gofalwr/oedolyn cyfrifol lle bo angen. Bydd yr ADD neu ei Ddirprwy yn rhannu'r ffurflenni cydsynio perthnasol â'r aelodau o staff Heneb sy'n gyfrifol am gasglu data; dylai ffurflenni wedi'u llenwi gael eu dychwelyd at yr ADD neu ei Ddirprwy.

e) Mae Heneb yn ymrwymo i brosesu unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Er y Rheoliad a'r Ddeddf, bydd Heneb a/neu'r ADD neu berson a benodir fel arall, yn rhannu gwybodaeth o'r fath â'r awdurdodau statudol mewn achosion lle y gall peidio â gwneud hynny effeithio ar les a diogelwch y plentyn, y person ifanc, neu'r oedolyn agored i niwed.

**f)** Bydd Heneb yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig rhiant, gofalwr neu warcheidwad person dan 18 oed, neu ofalwr neu berson cyfrifol oedolyn agored i niwed, cyn tynnu lluniau neu ffilmio unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad. Os caiff delweddau eu defnyddio ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu ddeunyddiau cyhoeddusrwydd Heneb, caiff yr holl fanylion y gellid eu defnyddio i adnabod y rhai sydd yn y lluniau eu dileu. Os na fydd modd dileu'r holl fanylion hynny (e.e. os bydd logo ysgol i'w weld) caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â phostio lluniau o'r fath eu hesbonio a cheisir caniatâd ysgrifenedig penodol cyn rhyddhau'r delweddau.

Heneb

Cydnabod Pryderon neu Honiadau sy'n Ymwneud â Diogelu ac Ymateb iddynt

Mae staff Heneb yn cydnabod bod cam-drin yn digwydd a byddant yn cael gwybod am yr arwyddion i gadw llygad amdanynt yn eu hyfforddiant diogelu.

a) Os bydd gan staff Heneb bryder sy'n ymwneud â lles neu ddiogelu ynglŷn â phlentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i niwed sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a noddir gan Heneb, bydd yn rhaid rhoi gwybod i'r ADD neu ei Ddirprwy bob amser. Os na fydd staff Heneb yn siŵr a yw'r pryder yn ddigon difrifol i gyfiawnhau llenwi ffurflen ffurfiol, rhaid trafod hyn gyda'r ADD neu ei Ddirprwy bob amser.

b) Cyfrifoldeb yr ADD a'i Ddirprwy yw rheoli'r broses o roi gwybod am bryderon; gofyn am gyngor gan gyrff cydnabyddedig a chysylltu â'r awdurdodau statudol lle bo hynny'n berthnasol.

c) Hefyd, mae gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Heneb Hyrwyddwr Diogelu dynodedig, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl faterion sy'n ymwneud â diogelu yn strategol. Os bydd gan staff Heneb bryderon ynglŷn â'r diwylliant diogelu neu'r ffordd y caiff diogelu ei reoli, neu bryderon sy'n ymwneud â'r ADD neu ei Ddirprwy, dylid trafod y rhain gyda'r Hyrwyddwr Diogelu. Yr Hyrwyddwr Diogelu presennol yw:

   Mr Henry Owen John, e-bost: henry.owenjohn@btinternet.com

d) Mae Heneb yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd staff yn teimlo eu bod yn torri cyfrinachedd er mwyn rhoi gwybod i'r ADD neu ei Ddirprwy am bryder. Dylid sicrhau'r staff bod telerau cyfrinachedd estynedig yn golygu y gellir trafod pryderon o'r fath gyda'r ADD neu ei Ddirprwy heb i hynny fod yn gyfystyr â thor-amod cyfreithiol.

e) Rhaid rhoi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu neu les i'r ADD neu ei Ddirprwy o fewn 24 awr, gan ddefnyddio'r ffurflenni a'r gweithdrefnau rhoi gwybod perthnasol. Os byddwch yn pryderu bod rhywun mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylai staff Heneb wneud y canlynol:

   - Os bydd risg ddifrifol o niwed, neu weithgarwch anghyfreithlon, dylid ffonio'r Heddlu. Os bydd perygl uniongyrchol i fywyd, dylid ffonio 999, ac fel arall dylid ffonio 101.

   - Os bydd angen i blentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i niwed gael sylw meddygol brys, dylid ffonio 999 a gofyn am ambiwlans. Yna, dylai ail aelod o staff gysylltu â'r perthynas agosaf.

   - Ar ôl rhoi gwybod i'r awdurdodau am achos brys, bydd yn **rhaid** i staff Heneb roi gwybod i'r ADD neu ei Ddirprwy **cyn gynted â phosibl, ac o fewn 24 awr fan bellaf.** Y tu allan i oriau swyddfa, dylid defnyddio'r rhif ffôn ar dudalen 10.

f) Gellir rhoi gwybod i staff Heneb am bryderon sy'n ymwneud â diogelu neu les mewn amrywiaeth o ffyrdd. Sut bynnag y caiff pryderon o'r fath eu codi, bydd Heneb yn gwneud y canlynol:

   - **Gwrando** ar yr hyn sy'n cael ei ddweud.
   - **Rhoi tawelwch meddwl** i'r sawl sy'n rhoi gwybod am y pryder(on) ei fod wedi gwneud y peth iawn.
   - **Peidio** â cheisio ymchwilio i'r mater. Ni fyddwn yn gofyn cwestiynau am fanylion y pryderon.

- **Esbonio** y caiff y pryderon eu rhannu os bydd angen. Os felly, bydd staff Heneb yn dweud wrth y person sy'n codi'r pryder(on) at bwy y caiff y pryderon eu hatgyfeirio, a pham a phryd y byddwn yn gwneud hynny.
- **Cofnodi'r** pryder(on) gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol.
- **Siarad** â'r ADD neu ei Ddirprwy (os nad wrth yr unigolyn hwnnw y cafodd y pryderon eu codi). Wedyn, bydd yr ADD a/neu ei Ddirprwy yn bwrw golwg dros y wybodaeth a rannwyd ac yn penderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriad mwy difrifol ac, os felly, at ba awdurdod statudol.

Pryderon sy'n Ymwneud â Diogelu: Arwyddion Ymhlith Oedolion

Rhaid i staff a gwirfoddolwyr Heneb fod yn ymwybodol bob amser, er y bydd hyn yn beth prin iawn, ei bod yn bosibl y byddant yn gweld ymddygiad rhwng aelodau eraill o staff neu wirfoddolwyr, neu tuag at blant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed, sy'n codi pryderon sy'n ymwneud â diogelu. Dyma rai enghreifftiau posibl o hyn:

- Person yn ymddwyn mewn ffordd anaddas gyda phlant, pobl ifanc, oedolion agored i niwed, gwirfoddolwyr neu aelodau o staff.
- Gall plentyn, rhiant neu oedolyn arall roi gwybod i chi am ymddygiad amhriodol.
- ***Yn anaml iawn, iawn*** mae'n bosibl y bydd aelod o staff yn dyst i ymddygiad tuag at aelod arall o staff, plentyn, person, gwirfoddolwr neu oedolyn agored i niwed y mae'n amlwg ar unwaith ei fod yn ymddygiad troseddol yn yr ystyr y bydd yn achosi niwed ar unwaith.

a) Os bydd aelod o staff Heneb yn dyst i unrhyw ymddygiad o'r fath, dylai wneud y canlynol:

- Os bydd yr ymddygiad yn fath o ymddygiad a fydd yn achosi niwed ar unwaith, **dylai alw'r heddlu**. Ar ôl galw'r heddlu, dylai wneud y canlynol:
- Cysylltu â pherthynas agosaf y dioddefwr a throsglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol (e.e. os yw'r person wedi cael ei gludo i'r ysbyty).
- Cysylltu â'r ADD a/neu ei Ddirprwy i roi gwybod iddo am y digwyddiad a bod yr heddlu wedi cael eu galw cyn gynted ag y bo'n ymarferol **ac o fewn 24 awr i'r digwyddiad**. Y tu allan i oriau swyddfa, dylid defnyddio'r rhifau ffôn a roddir ar dudalen 10.
- Nodi rhif trosedd yr heddlu i'w gynnwys ar y ffurflen rhoi gwybod am bryder sy'n ymwneud â diogelu.
- Ar ôl i'r heddlu ddelio â'r digwyddiad, cyn gynted ag y bydd yr aelod o staff yn dychwelyd i'r swyddfa, rhaid iddo lenwi ffurflen rhoi gwybod am bryder sy'n ymwneud â diogelu a threfnu cyfarfod gyda'r ADD, ei Ddirprwy, a'r Prif Archaeolegydd er mwyn eu briffio ynghylch y digwyddiad, ymateb yr heddlu ac unrhyw gamau pellach sy'n debygol o gael eu cymryd.
- Os na fydd risg o niwed ar unwaith, dylai gysylltu â'r ADD a/neu ei Ddirprwy am gyngor. Os bydd y digwyddiad lle y gwelwyd yr ymddygiad yn dal i fynd rhagddo, bydd yr ADD a/neu ei Ddirprwy yn rhoi cyngor ar unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol y gall fod angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau na fydd yr ymddygiad yn parhau.
- **<u>Rhaid</u>** llenwi ffurflen rhoi gwybod ar gyfer unrhyw ddigwyddiad lle y gwelir ymddygiad sy'n peri pryder, a **<u>rhaid</u>** rhannu'r pryderon â'r ADD a/neu ei Ddirprwy. Dylid cwblhau ffurflenni o'r fath cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond **<u>o fewn 72 awr ar ôl digwyddiad fan bellaf, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol.</u>** Os caiff ffurflen ei chyflwyno y tu allan i'r amserlen a nodir yma, rhaid i'r rhesymau dros hyn gael eu nodi arni.

b) Os caiff aelod o staff Heneb wybod bod aelod arall o staff neu wirfoddolwr wedi cael ei weld yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n peri pryder, bydd yr aelod o staff Heneb yn gwneud y canlynol:

- **Gwrando** ar y person sy'n rhoi gwybod am yr ymddygiad hwn.
- **Rhoi tawelwch meddwl** i'r person ei fod wedi gwneud y peth iawn.
- **Peidio** â cheisio ymchwilio i'r mater drwy ofyn cwestiynau ychwanegol am yr ymddygiad, ond:
- **Esbonio** y bydd angen iddo rannu'r wybodaeth â'r ADD a/neu ei Ddirprwy, a pham.
- **Cofnodi'r** hyn sy'n cael ei rannu gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol.
- **Siarad** â'r ADD a/neu ei Ddirprwy, a fydd yn ystyried unrhyw gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd ar unwaith ac yn cysylltu â'r Prif Archaeolegydd a'r Hyrwyddwr Diogelu ynglŷn â'r camau pellach.
- **Os** bydd y pryder a godir yn ymwneud â'r ADD neu ei Ddirprwy, dylid rhoi gwybod i'r Prif Archaeolegydd a/neu'r Hyrwyddwr Diogelu.

## Camfanteisio Troseddol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodas dan Orfod, Radicaleiddio

Bydd angen i staff a gwirfoddolwyr Heneb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, ac oedolion agored i niwed fod yn ymwybodol o'r pedwar mater uchod sy'n ymwneud â diogelu. Mae canllawiau manwl ar gael gan yr awdurdodau statudol ar bob un, ond rhoddir nodyn byr isod:

a) Camfanteisio Troseddol: defnyddir y term hwn pan fydd rhywrai'n camfanteisio ar blant, pobl ifanc, neu oedolion agored i niwed er mwyn elwa'n droseddol. Y fersiwn fwyaf cyfarwydd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yw 'llinellau cyffuriau', lle y bydd gangiau'n defnyddio aelodau eraill, nad ydynt yn hysbys i'r heddlu neu i asiantaethau eraill o bosibl, i gludo cyffuriau ledled y wlad. Er y bydd rhai'n cymryd rhan o'u gwirfodd o bosibl, gall eraill fod wedi cael eu gorfodi mewn rhyw ffordd. Mae canllawiau gan y Llywodraeth i'w gweld yma. Term arall sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio Troseddol yw 'Cogio': mae'r term hwn yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle y bydd troseddwr yn symud i mewn i gartref person agored i niwed ac yna'n defnyddio'r cyfeiriad hwnnw at ddibenion troseddol; gan arfer mwy a mwy o reolaeth dros yr unigolyn yn raddol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael yma.

b) Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod: mae hyn wedi'i gyfyngu i grwpiau demograffig penodol a chaiff ei wneud i ferched ifanc rhwng 2 a 7 oed fel arfer. Mae'n bosibl y bydd dioddefwyr yn teimlo'n anghyfforddus neu'n methu pasio wrin; yn aml caiff dioddefwyr eu cludo allan o'r wlad (yn ystod gwyliau ysgol) i gael y driniaeth. Mae canllawiau gan y Llywodraeth i'w cael yma. Os bydd plentyn yn dweud ei fod yn pryderu am hyn, bydd hynny'n fater ***BRYS*** a dylid rhoi gwybod i'r awdurdodau statudol amdano ar unwaith fel y enwir yn y linc yn y paragraff yma, ac wedyn i'r ADD a/neu ei Ddirprwy yn y ffurf arferol.

c) Priodas dan Orfod: er y bydd hyn fel arfer wedi'i gyfyngu i grwpiau demograffig penodol, gall hefyd ddigwydd mewn grwpiau eraill. Os bydd plentyn yn dweud ei fod yn pryderu am hyn, bydd hynny'n fater ***BRYS*** a dylid rhoi gwybod i'r awdurdodau statudol amdano ar unwaith fel y enwir yn y linc yn y paragraff yma, ac wedyn i'r ADD a/neu ei Ddirprwy yn y ffurf arferol. Bydd pobl ifanc yn wynebu'r risg fwyaf o hyn


rhwng 14 a 18 oed ac yn union cyn gwyliau ysgol. Mae tudalen we'r Llywodraeth ar Briodas dan Orfod yn rhoi cyngor ac arweiniad ar yr hyn y dylech ei wneud os byddwch yn amau bod person ifanc mewn perygl.

d) Radicaleiddio: mae'n bwysig deall **nad** yw radicaleiddio wedi'i gyfyngu i unrhyw grŵp, naill ai crefyddol neu wleidyddol. Gall radicaleiddio ddigwydd ar sawl ffurf, o radicaleiddio crefyddol i radicaleiddio gwleidyddol. Mae rhaglen PREVENT y llywodraeth yn rhoi gwybodaeth fanwl am ffyrdd o adnabod yr arwyddion pan fydd person mewn perygl o gael ei radicaleiddio / wrthi'n cael ei radicaleiddio, a'r camau y bydd angen eu cymryd.

   Gall radicaleiddio ddigwydd ar unrhyw oedran, ac mewn unrhyw leoliad. Mae'n bwysig bod yr holl staff yn gallu adnabod yr arwyddion a sut i roi gwybod amdanynt.

Dylai staff a gwirfoddolwyr Heneb sydd am roi gwybod am bryderon sy'n ymwneud â diogelu ddilyn y canllawiau isod.

Heneb


Pryder Cychwynnol: Perygl Uniongyrchhol
Pryder Cychwynnol: Dim perygl uniongyrchol
Galw’r Awudurdodau Stadudol ac yna:
Cyflawni ffurflen ‘Codi Pryderon’
Galw’r Add neu’r Ddirprwy bydd yn llenwi ffurflen ‘Codi Pryderon’ ac yna
Ffurflen i’r ADD neu’r Ddirprwy fydd yn ei ddarllen ac yna:
Yn haeddu ymchwil
Ymchwiliad gan yr Awdurdodau Statudol
Ymchwiliad Fewnol
Prosesau Allanol yn ddechrau; holl gwaith papur i’r Awdurdodau Statudol
Ddatod yn fewnol gyda sgwrs ynglŷn a’r ymddygiad / hyfforddiant ychwanegol i’r aelod o staff / gwirfoddolwr
Arolwg ar ymddygiad; os nad yw’n gwella neu ailddigwydd, cyfeirio at y Tîm Diogelu (gwirfoddolwr) neu Rheolwr (staff)
Penderfyniad i gysylltu â’r Awdurdodau Statudol
Penderfyniad i ddilyn prosesau A.D. yn fewnol.

ATODIAD 1: FFURFLENNI

Mae'r ffurflenni a rhestrir isod ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Ceir pob ffurflen ar '*Teams'* o dan '*Safeguarding'*

HEN-FO44 A : DWYIEITHOG Reporting Concerns Form v2
HEN-FO44 B: Diogelu—Dargadwedd a Storio Cofnodion v2
HEN-FO44 C: DWYIEITHOG Conclusion of Case Form
HEN-FO44 D: DWYIEITHOG Investigating Concerns Form v2
HEN-FO44 E: Safeguarding Records Retention and Storage
HEN-FO44 F: Safeguarding Disclosures and Concerns v5

Dogfennau Cyhoeddus:

Cod Ymddygiad ar Gyfer Gwirfoddolwyr
Safonnau Ymddygiad Gofynnol

ATODIAD 2: ADRANNAU PERTHNASOL O LAWLYFR STAFF HENEB

Fe fydd yr adrannau perthnasol yn cael ei atodi ar ôl cyhoeddi'r llawlyfr.

ATODIAD 3: GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ddiogelu a dylid cyfeirio atynt os bydd unrhyw amheuaeth.

Y Comisiwn Elusennau:
The Charity Commission - GOV.UK (www.gov.uk)

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant:
Working Together to Safeguard Children: Statutory framework (publishing.service.gov.uk)

Gweithdrefnau Diogelu Cymru:
Wales Safeguarding Procedures – North Wales Safeguarding Board

Deddf Gofal 2014:
Care Act 2014: supporting implementation - GOV.UK (www.gov.uk)

Y Ddeddf Plant a deddfwriaeth gysylltiedig:
the children act - Search - GOV.UK (www.gov.uk)

PREVENT:
Revised Prevent duty guidance: for England and Wales - GOV.UK (www.gov.uk)

Polisi Diogelu'r Cyngor Archaeoleg Brydeinig:
Safeguarding Council for British Archaeology (archaeologyuk.org)

Y Ddeddf Diogelu Data a GDPR:
Data protection: The Data Protection Act - GOV.UK (www.gov.uk)